# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Cynnig Maethu i Ofalwyr Maethu Cymru Gwynedd* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cynghorydd Menna Trenholme* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Aled Gibbard* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 08.04.25 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio pecyn o fuddiannau i Ofalwyr Maeth Maethu Cymru Gwynedd. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cymhellion a amlinellir isod ar gyfer gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor:

1. Caniatáu gostyngiad o 50% ( 25% i Ofalwr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor prif breswylfa gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor, cyn ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu Ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.
2. Cynnig tocyn parcio blynyddol am ddim.
3. Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden.
4. Mabwysiadu polisi Maethu Cyfeillgar i ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd sy'n gyflogedig i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mae Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi grym dewisol cyffredinol i awdurdodau bilio megis Cyngor Gwynedd i leihau atebolrwydd am Dreth Cyngor mewn perthynas ag unrhyw berson, neu grŵp o bobl, yn ychwanegol i unrhyw ddisgowntau ac eithriadau cenedlaethol perthnasol.

2.2 Mae Adran 67 Deddf 1992 yn rhestru'r adrannau hynny o'r Ddeddf ble'r Cyngor Llawn yn unig all benderfynu arnynt. Gan nad yw Adran 13A(1)(c) yn ymddangos ar y rhestr yma, gall y Cabinet wneud penderfyniad i ganiatáu rhyddhad dan yr Adran hon.

2.3 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o awdurdodau bilio yng Nghymru wedi penderfynu caniatáu gostyngiad i filiau Treth Gyngor rheini maeth penodol,fel rhan o becyn er mwyn denu mwy o bobl i ymgymryd â'r rôl yma.

2.4 Mae'r mater hwn wedi cael sylw gan swyddogion ac aelodau ar draws sawl adran a portffolio. Mae hefyd wedi ei gefnogi gan Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

1. Mae Gofalwyr Maeth yn chwarae rôl pwysig ac allweddol i'r Cyngor, gan ddarparu gofal o fewn teulu i blant a phobl ifanc sy'n methu byw gartref gyda'u teulu genedigol. Yn aml

iawn bydd plant sy’n derbyn gofal wedi profi trawma arwyddocaol ac mae ganddynt anghenion ychwanegol sydd angen rhianta a chefnogaeth fedrus a phrofiadol iawn.

2. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i sicrhau bod lleoliad yn cael ei wneud o fewn ardal yr Awdurdod Lleol ei hun (Adran 81(9) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) oni bai nad yw’n ymarferol resymol gwneud hynny, neu fod rhesymau pwysig dros leoli’r plentyn y tu allan i’r ardal – y prif reswm pwysig fyddai diogelu.
3. Nod uchelgeisiol Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Gwynedd 2022-2027 yw darparu lleoliadau digonol i fodloni anghenion unigol ac amrywiol plant sy’n derbyn gofal. Dros y bum mlynedd nesaf yr ydym yn bwriadu lleihau ein dibyniaeth ar gomisiynu lleoliadau preswyl a maethu annibynnol, yn unol â Bil Llywodraeth Cymru i ddileu elw a chynyddu gallu yn fewnol. Mae ganddom Gynllun Cartrefi Grŵp Bychain a fydd yn lleihau ein dibyniaeth ar leoliadau preswyl yn y sector annibynnol.
4. Er mwyn  cadw ein gofalwyr presennol a chynyddu nifer y gofalwyr maeth sydd eu hangen i gefnogi plant a phobl ifanc Gwynedd, mae’n rhaid i’r Awdurdod Lleol gystadlu gydag asiantaethau maethu annibynnol sydd, yn aml iawn, yn cynnig telerau gwell. O ganlyniad, mae’r adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno cymhellion newydd i wella cynnig y Cyngor i ofalwyr maeth yr awdurdod lleol.
5. Bydd pob gofalwr maeth cofrestredig yn gymwys i dderbyn y buddiannau. Lle bydd gofalwr maeth yn cynnig gofal egwyl fer yn unig, mi fyddent yn derbyn gostyngiad Treth Cyngor o 25%.

## 4 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

**1.** Dengys ymchwil Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) a ddarparwyd i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) ym mis Ionawr 2022, bod plant sy’n byw gyda Gofalwyr Maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a bod plant mewn darpariaeth awdurdod lleol yn fwy tebygol o aros yn eu hawdurdod gartref, sy’n eu galluogi i gynnal cysylltiadau pwysig. Felly mae’n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cynyddu lleoliadau lleol ac yn lleihau lleoliadau y tu allan i’r ardal.

**2.** Mae adroddiad Cyflwr Gofal Maeth y Genedl gan y Rhwydwaith Maethu (2021) yn rhoi cipolwg ar ansawdd gwasanaethau maethu ledled Cymru gyfan. Un o’r prif ganfyddiadau oedd bod Gofalwyr Maeth angen lwfansau i gyflenwi cost lawn gofalu am blentyn a thaliad sydd yn adlewyrchu eu gwerth fel aelod o’r tîm o amgylch y plentyn. Mae’n rhaid cael taliadau digonol i ddenu Gofalwyr Maeth newydd medrus ac ymrwymedig.

**3.** Mae’r twf yn y sector hwn yn parhau i fod yn is na’r angen sydd wedi ei nodi, felly mae angen ystyried datblygu cymhellion i ddenu mwy o ymholiadau a chymeradwyo mwy o bobl i faethu yng Ngwynedd. Mae’n rhaid i’r gwasanaeth gystadlu yn erbyn sefydliadau maethu annibynnol, yn ogystal â bod yn gyson â Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol eraill.

**4.** Mae Cymru, a rhannau eraill o’r DU, yn profi heriau i sicrhau bod digon o Ofalwyr Maeth i ddiwallu anghenion. Mae Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Gwynedd, a ddiweddarwyd yn 2024, yn datgan nad oes digon o Ofalwyr Maeth mewnol yng Ngwynedd i fodloni’r galw. Mae nifer y plant mewn gofal maeth yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu o un flwyddyn i’r llall ac mae’r Rhwydwaith Maethu wedi cyfrifo bod angen amcangyfrif o 550 o rieni maeth newydd ledled Cymru bob blwyddyn i gyd-fynd â’r galw.

**5.** Ar hyn o bryd mae 125 aelwyd Gofal Maeth mewnol yng Ngwynedd, sef 70  o Ofalwyr Maeth cyffredinol a 55 o Ofalwyr Maeth Cysylltiedig (h.y. lle mae’r plentyn yn perthyn).

**6.** Mae Awdurdodau Lleol mewn cystadleuaeth gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol sydd yn recriwtio yn yr un ardaloedd ac yn cynnig ffioedd a lwfansau uwch.. Mae dibyniaeth sylweddol ar yr Asiantaethau Maethu Annibynnol i ddarparu gofal maeth ar hyd Gogledd Cymru. Mae'r defnydd yng Ngwynedd wedi bod yn eithaf cyson, ond heb gynyddu o ran cyfanswm. Mae'n anodd iawn recriwtio aelwydydd gofal maeth yn gyffredinol ledled y DU.

**7.** Gall diffyg lleoliadau gofal maeth addas arwain at blant gyda llai o anghenion cymhleth yn cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl, sy'n golygu lleoli plentyn os oes lle ar gael yn hytrach na'r gallu i fodloni anghenion y plentyn.

**8.** Y Cynnig Maethu yng Ngwynedd:

**8.1 Gostyngiad Treth Cyngor**

- Bydd y rhyddhad ond ar gael i breswylwyr y mae Cyngor Gwynedd wedi eu penodi i fod yn rieni maeth cymwys;
- Mae'r gofalwyr maeth yn byw ac yn atebol am Dreth Cyngor yng Ngwynedd;
- Bydd y lefel o ryddhad a ganiateir yn 50% o atebolrwydd Treth Cyngor prif neu unig gartref y Rheini Maeth cyn ystyried unrhyw ddisgownt/eithriad a Gostyngiad Treth Cyngor y bydd y preswylydd, neu'r cartref, yn deilwng iddynt;
- Ar gyfer gofalwyr maeth egweyl fer bydd y rhyddhad a ganiatier yn 25% o atebolrwydd Treth Cyngor.
- Bydd y rhyddhad yn cael ei ganiatáu yn erbyn atebolrwydd sy'n codi o 1 Ebrill 2025 ymlaen;
- Ni gynhelir prawf modd ar gyfer y rhyddhad, a ni fydd yn amodol ar amgylchiadau unigol y sawl sy'n rieini maeth perthnasol.

Ar sail y cyfrifiadau a wnaed gan yr Adran Gyllid, amcangyfrifir na fydd caniatáu'r rhyddhad hwn yn costio mwy na £111,500 y flwyddyn, ac mae'n debygol o gostio llai na hyn. Bydd cost y cynllun yn cael ei ysgwyddo'n gyfangwbl gan Gronfa Casglu Treth Cyngor Gwynedd.

**8.2 Tocyn Parcio blynyddol**

Tocyn parcio am ddim i holl feysydd parcio'r Cyngor.

Ychydig iawn o'r Gofalwyr Maeth sy'n prynu Tocyn Parcio blynyddol, felly ni fyddai colled incwm sylweddol yn deillio o'r cynnig, Bydd angen i'r Cyngor 'dalu' am docyn ond mae'r gwasanaeth wedi cytuno i hynny fod ar 30% o'r gwir gost.
Uchafswm y gost fyddai £4800 y flwyddyn pe bai pob gofalwr maeth yn derbyn Tocyn parcio.

**8.3 Byw'n Iach**

Mae'r cynnig cerdyn "max" ar gael ar hyn o bryd sef nofio am ddim yn ystod sesiynau cyhoeddus. Mae hyn yn cael ei ariannu drwy Grant Nofio y Llywodraeth.

Mae'r gwasanaeth wedi cynnig darparu aelodaeth hamdden am bris gostyngedig, sy'n golygu defnydd diderfyn o gampfeydd, pyllau nofio a dosbarthiadau i rieni maeth.

Golyga hyn pris misol o £20 (50% yn rhatach). Byddai uchafswm cost debygol y cynnig yma i'r Cyngor yn £13,500 y flwyddyn pe bai pob gofalwr maeth yn ei ddewis.

**8.4 Polisi Cefnogaeth i Faethu** (gweler **Atodiad 1**)

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Ofalwyr Maeth sydd hefyd yn weithwyr i'r Cyngor er mwyn lleihau rhwystrau a chynnig hyblygrwydd yn eu trefniadau gweithio er mwyn cyfarfod anghenion y plant sydd yn eu gofal. Mae'n berthnasol i holl weithwyr y Cyngor ac eithrio sefydliadau addysgol sydd a phwerau dirprwyedig. Mae'r polisi yn cynnig hyd at 5 diwrnod ychwanegol o wyliau arbennig mewn cyfnod o 12 mis ar gyfer:

- Asesiad a hyfforddiant cychwynnol cyn cymeradwyo fel gofalwr maeth.
- Presenoldeb mewn panel i'w cymeradwyo.
- Cyfarfodydd adolygu plant, cyfarfod adolygu Gofalwyr Maeth blynyddol a hyfforddiant.

Mae'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol wedi drafftio polisi, ac o dderbyn cefnogaeth y Cabinet i gynnwys yr adroddiad hwn fe fydd wedyn yn cael ei fabwysiadu yn ffurfiol.

**9.** Mae'r pecyn hwn o gymhellion yn gwneud maethu yn fwy dichonadwy yn ariannol i rai preswylwyr, a gall hyd yn oed ddenu'r rheiny sydd ar hyn o bryd yn maethu gydag Asiantaeth Faethu Annibynnol i drosglwyddo i Wynedd. Mae'r cymhellion yn cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill sy'n mabwysiadu strategaethau tebyg.

**10.** Bwriad y pecyn yw annog a denu mwy i fod yn Ofalwyr Maeth i Gwynedd yn ogystal a dangos gwerthfawrogiad o'r gofalwyr profiadol ac ymroddedig sydd eisoes yn gofrestredig i'r Cyngor. Byddai'n cryfhau cynnig Maethu Cymru Gwynedd i gadw ac ychwanegu at y nifer gofalwyr maeth a symud i gyfeiriad o leihau lleoliadau annibynnol er mwyn dileu elw o'r sustem.

## 5. Camau nesaf

Os bydd y Cabinet yn penderfynu caniatáu'r pecyn cymhellion, bydd y polisiau a sefydlir yn cael ei defnyddio am y flwyddyn ariannol gyfan yn cychwyn 1 Ebrill 2025. Bydd biliau Treth Cyngor addasiedig yn cael eu hanfon i'r pobl berthnasol.

Gofynnir am gymeradwyaeth felly i weithredu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Gostyngiad o 50% ( 25% i Ofalwr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor prif breswylfa gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor, cyn ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu Ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt. | £111,500 |
| **2.** | Cynnig tocyn parcio blynyddol am ddim. | £4800 |
| **3.** | Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden. | £13,500 |
| **4.** | Mabwysiadu polisi Maethu Cyfeillgar i ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd sy'n gyflogedig i'r Cyngor. | £0 |
| | Cyfanswm | £129,800 |

Byddai uchafswm cost blynyddol y pecyn i'r Cyngor yn £129,800 y flwyddyn. Gellir cyfiawnhau'r gwariant wrth ystyried bod cost un lleoliad yn y sector maethu annibynnol oddeutu £989 yr wythnos (£51,000 y flwyddyn).

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 6.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad. Rwyf yn gefnogol a bodlon fod y penderfyniadau a geisir yn rhesymol o dan yr amgylchiadau a nid oes gennyf wrthwynebiad iddynt.

### 6.2 Swyddog Monitro

Mae Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi grym dewisol cyffredinol i awdurdodau bilio megis Cyngor Gwynedd i leihau atebolrwydd am Dreth Cyngor mewn perthynas ag unrhyw berson, neu grŵp o bobl, yn ychwanegol i unrhyw ddisgowntau ac eithriadau cenedlaethol perthnasol. Nid yw hyn yn benderfyniad Cyngor Llawn. Gall y Cabinet ganiatáu y gostyngiad. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniadau a geisir ac y gall y Cabinet fabwysiadu'r argymhellion.

**Rhestr Atodiadau:**

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**